Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council
Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)**
**Education and Family Support Directorate – Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU/LH

Dyddiad / Date: 5 Hydref 2021

Annwyl riant/gofalwr

**Gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd**

Ar ôl ystyried y sefyllfa bresennol, mae Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol Covid-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi penderfynu y dylid gwisgo gorchudd wyneb ym mhob ysgol uwchradd Cwm Taf Morgannwg. Bydd y mesur diogelu ychwanegol hwn ar waith dros dro tan hanner tymor yr Hydref.

Felly, dylai pob disgybl wisgo gorchudd wyneb ym mhob rhan o'r ysgol sydd dan do oni bai eu bod wedi'u heithrio am resymau meddygol neu os oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys y rhannau hynny o'r adeilad sy'n agored i bawb, fel y coridorau a'r neuaddau, ac yn yr holl fannau dysgu, fel yr ystafelloedd dosbarth.

Mae'n bwysig nodi mai mesur ychwanegol dros dro yn unig yw hwn, ac y caiff y trefniadau eu hadolygu ar 22 Hydref cyn y gwyliau hanner tymor.

Mae'n dda gennyf gadarnhau bod brechlyn yn cael ei gynnig i bob plentyn rhwng 12 a 15 oed yn awr, a'r bwriad yw cynnig apwyntiad i bob un erbyn diwedd yr hanner tymor. Bydd hyn, yn sicr, yn helpu i atal y feirws rhag ymledu.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am barhau i gydweithredu yng nghyswllt y mesurau rheoli hyn.

Yn gywir

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ffôn/Tel: 01656 643643 Facs/Fax: 01656 668126 Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh